Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gweinidogol ar Ddiwygio Gwasanaethau Datganoledig** |
| **DYDDIAD** | **16 Mai 2014** |
| **GAN** | **Y Gwir Anrh. Carwyn Jones, Prif Weinidog Cymru** |

Mae adroddiad y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus, dan arweiniad Syr Paul Williams, yn cynnig set bellgyrhaeddol a phwysig o ddiwygiadau i wasanaethau cyhoeddus. Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu adroddiad y Comisiwn sydd, ynghyd ag adroddiadau'r Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru dan arweiniad Paul Silk, yn cynnig sylfaen gadarn ar gyfer gwella gwasanaethau cyhoeddus a chanlyniadau i bobl ledled Cymru.

Rwyf felly wedi sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gweinidogol newydd i arwain ar ddatblygu a chyflwyno agenda ddiwygio newydd, a fydd yn cynnwys ein hymatebion i adroddiadau'r ddau Gomisiwn. Mae Cylch Gorchwyl y Grŵp wedi'i atodi a bydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru. Byddaf yn gwneud cyhoeddiadau pellach ar yr agenda ddiwygio hon cyn toriad yr haf.